



Dyma amser....

Myfyrdodau ar yr Etholiad Cyffredinol

Fe synnwyd bron bawb gan y cyhoeddiad diweddar ynghylch Etholiad Cyffredinol. Rydym bellach, fel disgyblion Cristnogol, yn wynebu cwestiynau nid yn unig am sut y dylem bleidleisio, ond am yr hyn y dylem ni a'n heglwysy fod yn ei wneud ac yn ei ddweud yn ystod yr ymgyrch. Yn ystod yr wythnosau sy'n arwain at yr etholiad, bydd Cytûn yn cynnig myfyrdodau a dadansoddiad cytbwys, gan geisio cefnogi Cristnogion ac eglwysy lleol wrth iddyn nhw ymgymryd â'r materion, ac yn gweithio i gadw ar yr agenda gwleidyddol y pethau y credwn eu bod yn bwysig. Yma, yn ein hadnodd cyntaf, rydym yn cynnig rhai myfyrdodau ar themâu Beiblaidd allweddol a fydd, gobeithio, yn helpu i roi digwyddiadau'r wythnos ddiwethaf mewn persbectif.

PEIDIWCH Â RHOI'R GORAU IDDI!

Oherwydd ynddo ef y
crëwyd pob peth yn y
nefoedd ac ar y ddaear,
pethau gweledig a
phethau anweledig,
gorseddau,
arglwyddiaethau,
tywysogaethau ac
awdurdodau. Trwyddo ef
ac er ei fwyn ef y mae pob
peth wedi ei greu.

Colosiaid 1:16

"O na! Dim eto! " Ai dyma beth oedd eich ymateb i'r newyddion am yr etholiad? Mae blinder pleidleiswyr, amheuaeth y tu ôl i gymhellion yr etholiad, neu ofn ar gyfer dyfodol ein gwlad wedi arwain llawer o bobl at deimlo eu bod wedi cael llond bol ar wleidyddiaeth.

Fel Cristnogion, rydym yn credu nid yn unig fod ein byd a'r rhai sy'n byw ynddo wedi eu creu gan Dduw, ond fod y systemau a'r strwythurau sy'n ein dal ni ynghyd yn rhan o bwrpas Duw hefyd. Rydym yn cael ein gwneud i fyw mewn cymuned; cymuned sy'n cael ei threfnu, ei strwythuro ac sy'n gweithio er lles pawb. Fe fyddai troi ein cefn ar y prosesau sy'n sefydlu Llywodraeth ein cymdeithas, neu gilio oddi wrth y cyfle i atgoffa pawb sy'n gysylltiedig, am negeseuon a blaenoriaethau Teyrnas Dduw, yn gyfystyr â rhoi'r gorau i elfen allweddol o'n hunaniaeth fel Efengyl bobl.

Gall yr etholiad hwn ein harwain i mewn i diriogaeth anghyfarwydd lle y gallai agweddau, naratif a blaenoriaethau sefydledig deimlo allan o le. Yn hytrach nac achosi i ni gilio oddi wrth yr her, mae'n cyflwyno cyfleoedd newydd i bobl Dduw archwilio blaenoriaethau a gwerthoedd ein ffydd, a sut y mae'n bosib i'r rhain gael eu dilyn a'u mynegi o fewn dadleuon yr etholiad.

Dyma amser i bobl Dduw weddio am ddoethineb, i geisio pwrpas Duw ac i gyhoeddi gwirionedd Duw, i geisio cymorth yr Ysbryd i fyw a siarad gyda dewrder ac eglurder. Sut y gallwn ni ddefnyddio ein pleidlais mewn ffordd dda? Sut y dylem ddefnyddio ein dylanwad er daioni? Sut y gallwn ni atgoffa pawb sy'n gysylltiedig, ac sy'n cael eu heffeithio gan yr etholiad hwn, fod awdurdod uwch yn ein byd nag unrhyw lywodraethwr daearol?

RYDYCH CHI'N BWYSIG, RYDYN NI I GYD YN BWYSIG

Peidiwch â gwneud dim o gymhellion hunanol nac o ymffrost gwag, ond mewn gostyngeddwrwydd bydded i bob un ohonoch gyfrif y llall yn deilyngach nag ef ei hun. Bydded gofal gan bob un ohonoch, nid am eich buddiannau eich hunain yn unig ond am fuddiannau pobl eraill hefyd.

Philipiaid 2:3-4

Dyma amser i bobl Dduw wneud i'n lleisiau gael eu clywed. Beth ddylen ni fod yn ei ddweud? Pwy ddylen ni fod yn gwrando arnyn nhw - a lleisiau pwy sy'n cael eu boddi?

ANGHYTUNO'N DDA

Onid rhowch brawf ar bob peth a glynwch wrth yr hyn sydd dda. Ymgadwch rhag pob math o ddrygioni.

1 Thesalonicaid 5:21-22

Mae Cristnogion yn credu'r gwir syml sy'n nodi fod bod yn ddydol yn ymwneud â bod wedi ein gwneud ar ddelw Duw, ac felly yn berchen ar werth cynhenid ac urddas. Rydym yn cael ein gwahodd i garu Duw gyda phob agwedd ar ein bodolaeth, sy'n golygu bod ein teimladau, ein meddyliau, gobeithion, pryderon a breuddwydion yn bethau o bwys.

Ond wrth gydnabod ein dynoliaeth ein hunain, rydym hefyd yn cael ein galw i gydnabod yr un gwerth cynhenid mewn eraill, ac yn wir, fel pobl yr Efengyl, i osod pobl eraill uwchlaw ni ein hunain.

Wrth i'r ymgyrch etholiadol fynd rhagddi, beth yw cymhellion sylfaenol a phwrpas y gwahanol straeon gwleidyddol sy'n dod i'r amlwg a'r rhai sy'n eu hyrwyddo? A ydyn nhw'n gofyn i ni gofleidio agendâu sydd ddim ond yn gwasanaethu ein hunan-les ni ei hunain? A oes polisiau'n cael eu hyrwyddo sy'n rhoi buddiannau rhai pobl uwchlaw anghenion a lles pobl eraill? A yw'r rhai sy'n ceisio ein pleidlais yn gwasanaethu eu buddiannau eu hunain neu'n ceisio hyrwyddo lles pawb?

Beth sy'n dylanwadu arnoch chi? Weithiau, dydyn ni ddim hyd yn oed yn sylwi ar sut mae syniadau, digwyddiadau neu safbwyntiau'n cael effaith ar yr hyn yr ydym yn ei gredu neu'n ei wneud. Gall sylw'r cyfryngau effeithio ar y ffordd yr ydym yn gweld pethau. Mae cywair rhai dadleuon gwleidyddol a rhai penawdau yn ddiweddar wedi bod yn annymunol ac yn ymrannol, tuedd a allai barhau wrth i'r gwahanol bleidiau gystadlu am ein sylw a'n cefnogaeth.

Un o'r cwestiynau y gallem ni, fel disgyblion i Iesu Grist, eu gofyn yw, "Pa effaith y mae hyn i gyd yn ei gael arnom ni?" Wrth i ni feddwl am ein rôl broffwydol fel pobl Dduw, fe allem hefyd ystyried pa effaith a gaiff hyn ar gymdeithas yn gyffredinol wrth i ni ddod yn gyfarwydd â'r difrïo, y sarhau a'r cyhuddiadau.

Un o'r egwyddorion allweddol yr ydym ni, fel eglwysi sy'n gweithio gyda'n gilydd drwy Cytûn, wedi ceisio ei gofleidio yw herio naratif, rhagdybiaethau a pholisiau sy'n ceisio stigmatiddio a cham-gynrychioli pobl eraill. Yn ystod yr ymgyrch etholiadol hon, pa rôl sydd gennym ni, fel Cristnogion, mewn herio'r gor-ddweud, yr ystumio a'r hanner gwirionedd ar ran gwleidyddion a mynegiant cyfryngau allweddol? Sut rydyn ni'n gwarchod ein hunain ac eraill rhag effaith niweidiol naratifau a hawliadau o'r fath?

Dyma amser i bobl Dduw geisio gwirionedd a datgelu twyll. Ym mha ffyrdd y gallwn ni herio iaith a syniadau sy'n niweidio? Sut y gallwn fodelu ffyrdd iachusol ac anrhydeddus lle gall pobl sydd â gwahanol safbwyntiau a barn drafod a dadlau eu safbwyntiau gwrthwynebol yn barchus?



BETH (ARALL) SY’N CYFRIF?

Bellach gyfeillion, beth bynnag sydd yn wir, beth bynnag sydd yn anrhydeddus, beth bynnag sydd yn gyfiawn a phur, beth bynnag sydd yn hawddgar a chanmoladwy, pob rhinwedd a phopeth yn haeddu clod, myfyriwch ar y pethau hyn.

Philipiaid 4:8

Brexit, mae’n debyg, fydd y mater amlycaf yn yr ymgyrch hon, er bod Erthygl 50 eisoes wedi cael ei sbarduno, ac ni fydd Aelodau Seneddol unigol yn cael fawr o bŵer i lunio cytundeb yn y pen draw. Ond mae perygl gwirioneddol i Brexit ddod yn unig fater, a phryderon a chanlyniadau pwysig eraill yn cael eu hanwybyddu.

Mae ein Hysgrythurau’n ein hatgoffa nad ydym yn cael ein galw yn syml i gydymffurfio â gwerthoedd ac agendâu y byd o’n cwmpas, ond i fod yn bresenoldeb trawsnewidiol ac yn gyfrwng i drawsnewid pethau yn ein cymdeithas. Rydym yn cael ein gwahodd i wneud mwy na dim ond ymateb ac adweithio i’r hyn sy’n digwydd o’n cwmpas. Yn lle hynny, rydym yn fwriadol i fod i geisio a chymeradwyo’r achosion a’r pryderon hynny sy’n cael eu diffinio gan wirionedd, cyfiawnder, anrhydedd a’r rhinweddau eraill hynny y mae Paul yn eu nodi yn ei lythyr at y Philipiaid.

Fel pobl Gristnogol, pa rôl sydd gennym a pha gyfrifoldeb sydd arnom ni i ddwyn pryderon i sylw, naill ai trwy’r cwestiynau a ofynnwn i’r rhai fydd yn canfasio ac i’r ymgyrchwyr, neu yn y ffordd yr ydym yn defnyddio ein llais a’n dylanwad?

Dyma amser i bobl Dduw fyfyrion o’r newydd ar y rhinweddau hynny y mae ein Hysgrythurau’n eu cymeradwyo fel rhai sy’n haeddu ein sylw a’n blaenoriaeth. Sut y dylai’r rhain gael eu byw ym mywyd ein cenedl, a beth a ddylem ei ddisgwyl oddi wrth y rhai sy’n cael eu penodi i swydd wleidyddol yng ngoleuni hyn? Beth yw’r cwestiynau y dylem fod yn eu gofyn? Beth yw’r materion y dylem fod yn eu codi? Beth sydd angen i ni ganolbwyntio arno wrth i’r ymgyrch etholiadol symud ymlaen?

LLYWODRAETH DDA?

Dyweddodd wrthyf, feidrolyn, beth sydd dda, a’r hyn a gais yr Arglwydd gennyf: dim ond gwneud beth sy’n iawn, caru feyrngarwch, ac ymostwng i rodio’n ostyngedig gyda’th Dduw.

[Micha 6:8]

Mae llawer yn cael ei ddweud ynghylch yr angen am Lywodraeth gref ac arweinyddiaeth gref. Beth mae’r syniadau hyn yn ei olygu i ni? Er y gall Llywodraeth gref fod yn ddymunol, neu hyd yn oed yn angenrheidiol, mae modelau o amgylch y byd sydd yn wir yn denu condemniaeth eang. Nid yw Llywodraeth "gref" ynnddi ei hun nac ohoni ei hun yn beth da. Mewn systemau democrataidd modern mae mwyafrifoedd Seneddol llethol yn lleihau'r angen i Lywodraeth wrando ac ymateb i safbwyntiau eraill.

Mae angen i ni fyfyrion nid yn unig ar rym a chryfder unrhyw awdurdod a roddir, ond hefyd ar ei natur a’i rinweddau. Mae ein Hysgrythurau’n ein hatgoffa bod Duw nid yn unig wedi galw am arweinyddiaeth dda a chyfiawn, ond mae hefyd wedi dangos i ni sut beth yw hynny. Dim ond un enghraifft yw’r adnod o Micha, ond mae’n canmol model o arweinyddiaeth sy’n gweithredu’n gyfiawn, yn caru trugaredd ac yn cerdded yn ostyngedig gerbron Duw. Mae ein Hysgrythurau a’n traddodiadau’n rhoi i ni adnoddau cyfoethog sy’n disgrifio gwerthoedd a blaenoriaethau Teyrnas Dduw i ni, a thro ar ôl tro yn atgoffa llywodraethwyr daearol a dinasyddion am eu cyfrifoldebau o flaen Duw.



Fel dinasyddion Cristnogol, nid ydym yn syml yn cael ein galw i hyrwyddo ac amddiffyn ein barn a'u pryderon ein hunain, ond i fod yn agored i Ysbryd Duw ac i gofleidio'r daioni a'r gwirionedd sy'n cael ei ddatgelu yng ngair Duw.

Dyma amser i Gristnogion gydnabod fod Duw wedi siarad ym mhob cyfnod o hanes, a bod ein Hysgrythurau â llawer i'w ddweud am gymdeithas dda ac iachusol. Sut beth yw llywodraeth dda ac arweinyddiaeth dda yng nghyd-destun ein sefyllfa genedlaethol a byd-eang? Sut mae gair Duw yn diffinio daioni? Sut y gallwn ni hyrwyddo a chadarnhau hyn yn y ddadl etholiadol sy'n dod i'r amlwg? Beth mae'r Arglwydd yn gofyn i ni ei wneud?

PARATOI AR GYFER Y DYFODOL

Bydded eich amcanion yn anrhydeddus yng ngolwg pawb. Os yw'n bosibl, ac os yw'n dibynnu arnoch chwi, daliwch mewn heddwch â phawb.

Rhufeiniaid 12:17-18

Gall ymddangos yn beth anodd ei gredu ar hyn o bryd, ond mewn dim ond ychydig wythnosau, bydd yr etholiad drosodd. A fydd pethau'n ôl fel arfer? Beth bynnag fydd y canlyniad, mae perygl efallai y bydd y person cyffredin yn debygol o weld hyn fel yr adeg i adael i'r gwleidyddion fynd ymlaen â'r gwaith. Ond mae'r adnodau hyn yn ein hatgoffa'n ddwys bod ceisio gwneud yr hyn sy'n iawn nid yn benderfyniad unwaith ac am byth ond yn gyfrifoldeb parhaus sy'n gofyn am ofal ac ymdrech.

Mae pobl Dduw yn cael eu galw i fod yn llais proffwydol yn y gymdeithas. Unwaith y bydd yr etholiad drosodd, bydd tasg y llywodraeth yn dechrau. Beth bynnag fydd y mandadau y gallai ein gwleidyddion gredu sydd ganddynt, fel pobl Dduw mae gennym ninnau hefyd gyfrifoldeb i geisio'r hyn sy'n dda, i siarad am yr hyn sy'n iawn ac i herio'r hyn rydym yn eu hystyried yn niweidiol ac anghyfiawn. Beth bynnag fydd siâp neu ffurf ein Llywodraeth newydd, bydd gan ddinasyddion Cristnogol rôl i'w chwarae wrth geisio llunio'r math o gymdeithas yr ydym i gyd yn byw ynddi, a dylanwadu arni.

Dyma amser i Gristnogion feddwl y tu hwnt i ddigwyddiadau uniongyrchol yr ymgyrch etholiadol a phenderfynu sefyll dros wirionedd, cyfiawnder, heddwch a lles drwy gydol y tymor seneddol nesaf a thu hwnt. Beth mae Duw yn ei ddweud wrthym trwy'r digwyddiadau cyfredol a'r cyfleoedd a'r heriau yr ydym yn gwybod sy'n ein disgwyl unwaith y bydd yr etholiad drosodd? Sut y dylem fod yn paratoi ar gyfer hyn? Sut ydyn ni'n ymrwymo i barhau i ymgysylltu â'n gwleidyddion etholedig?

I gael mwy o wybodaeth ac adnoddau ewch i www.cytun.cymru/etholiad2017

Cyfieithwyd yr adnodd hwn gan Cytûn gyda chaniatâd y Joint Public Issues Team. Cytûn sy'n derbyn cyfrifoldeb am y cyfiethiad. I weld y ddogfen wreiddiol, a darllen mwy am waith JPIT, ewch i:

www.jointpublicissues.org.uk/general-election-2017/

